






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gell Cyngor Technegol

Crynodeb o'r cyngor

8 Ionawr 2021



Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb

8 Ionawr 2021

Crynodeb o’r Prif Bwyntiau

- Mae amcangyfrif diweddaraf SAGE o’r rhif atgynhyrchu (R_t) ar gyfer Cymru (ar 6 Ionawr) rhwng 0.8 ac 1.1. Dyma’r amcangyfrif swyddogol o rif R_t i Gymru yn seiliedig ar y data sydd ar gael hyd at 4 Ionawr. Mae SAGE yn amcangyfrif bod yr epidemig yn lleihau/tyfu rhwng -4% ac 1% y dydd.
- Yn seiliedig ar nifer yr achosion yn unig, mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn amcangyfrif bod R_t rhwng 1.06 ac 1.08 (ar 1 Ionawr) a bod yr amser haneru yn 68 diwrnod (ar 5 Ionawr).
- Mae’r amcangyfrifon hyn wedi gwella ers yr adroddiad diwethaf (23 Rhagfyr 2020), ond mae mwy o ansicrwydd oherwydd newidiadau a tharfu dros gyfnod yr ŵyl, yn ogystal ag effaith yr amrywiolyn newydd na ellir rhoi cyfrif llawn amdano o bosibl.
- Ar 11 Ionawr, mae positifedd profion yng Nghymru (treigl 7 diwrnod) yn 20.6%, sy’n parhau i fod yn uchel ac yn uwch na’r trothwy cyfnod atal byr coch. Mae positifedd yn arbennig o uchel yn ardaloedd Wrecsam (29.7%) a Sir y Fflint (25.9%) yn y Gogledd, a Phen-y-bont ar Ogwr (28.1%) yn y De.
- Mae data arolwg heintiau’r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer yr wythnos ddiweddaraf (27 Rhagfyr 2020 i 2 Ionawr 2021) yn dangos bod gan tua 1 o bob 70 o bobl COVID-19. Mae hyn wedi gostwng ar ôl cynyddu’n sydyn a chyrraedd uchafbwynt ychydig cyn y Nadolig. Mae’n bwysig pwysleisio’r ansicrwydd ynghylch y ffigurau hyn gan mai cymharol ychydig o brofion positif y mae’r arolwg yn eu codi yn gyffredinol. Oherwydd y bwlch amser rhwng dal COVID-19 a phrofi’n bositif, mae’n debygol na fydd effaith cyfnod y Nadolig a’r Flwyddyn Newydd ar gyfraddau profion positif yn gwbl amlwg tan ail wythnos mis Ionawr.
- Cafwyd nifer cynyddol o enghreifftiau o VOC 202012/01 (wedi’u canfod drwy ddefnyddio’r dull procsi lle ceir Methiant ar y Targed Gennyn-S yn y feirws) drwy gydol mis Rhagfyr a dechrau mis Ionawr, a chadarnhawyd yr amrywiolyn ar draws pob rhanbarth yng Nghymru.
- Mae [dadansoddiad o ddata olrhain cysylltiadau](#) gan lechyd Cyhoeddus Lloegr yn dangos bod cyfraddau ymosodiadau eilaidd (y tebygolrwydd y bydd haint yn digwydd ymhlith pobl o fewn grŵp penodol, megis yr aelwyd neu gysylltiadau agos) yn uwch lle mae gan yr achos mynegai y math newydd o amrywiolyn. Mae

hyn yn cyfateb i ganfyddiadau eraill sy'n dangos bod yr amrywiolyn newydd yn fwy heintus.

- Ar 6 Ionawr, roedd cyfran y galwadau i GIG 111 a Galw Iechyd Cymru yn ymwneud â symptomau COVID-19 posibl yn parhau'n sefydlog o gymharu â'r wythnos flaenorol. Mae ymgynghoriadau meddygon teulu ar gyfer unrhyw Haint Anadlol Acíwt (ARI) wedi gostwng tra bod ymgynghoriadau meddygon teulu ar gyfer amheuaeth o COVID wedi cynyddu o gymharu â'r wythnos flaenorol. Mae nifer y galwadau ambiwlans a allai fod yn gysylltiedig â COVID-19 wedi gostwng yn yr wythnos ddiwethaf.
- Ar 8 Ionawr, mae nifer y bobl yn yr ysbyty sydd wedi cael cadarnhad bod COVID-19 arnynt wedi aros yn uwch na'r uchafbwynt ym mis Ebrill ac wedi parhau i gynyddu. Yn gyffredinol, mae defnydd unedau gofal dwys (cleifion COVID-19 a chleifion nad oes ganddynt COVID-19) yn dangos bod unedau gofal dwys 100% yn llawn, neu'n agos at hynny, ac nad yw'n bosibl sicrhau cymhareb staffio 1:1 ar gyfer cleifion unedau gofal dwys ar draws Cymru.
- Er y dylid trin data'n ofalus oherwydd cyfnod gwyliau'r Nadolig, mae marwolaethau a gofnodwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (ar 6 Ionawr) a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (wythnos yn gorffen 1 Ionawr) wedi parhau i ddangos tuedd ar i fyny ers ein hadroddiad diwethaf.
- Yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ar 3 Ionawr, rhoddwyd cyfanswm o 49,428 dos o frechlyn COVID-19 (25 ohonynt yn ail ddos) yng Nghymru. Bydd nifer wirioneddol y dosau yn uwch oherwydd y cofnodir data'n barhaus.
- Mae'n cymryd 2-3 wythnos i frechlyn ysgogi ymateb imiwnedd, sy'n golygu ei bod yn bosibl i'r bobl sydd wedi cael y brechiad gael eu heintio o hyd yn ystod y cyfnod hwn a bydd oedi o tua phedair wythnos cyn y gwelir buddion y brechlynnau o ran atal derbyniadau i'r ysbyty, ac oedi hirach cyn y ceir effaith ar nifer y marwolaethau.
- Dengys data symudedd ostyngiadau mawr mewn symudiadau, ond yn bennaf ar ôl 24 Rhagfyr. O'i gymharu â'r cyfnod atal byr, ni welwyd symudedd yn lleihau cymaint yn ystod pedwar diwrnod cyntaf y cyfyngiadau lefel rhybudd 4. Ar 25/26 Rhagfyr 2020 roedd symudedd yn arbennig o isel. Ers dydd Llun 4 Ionawr mae symudedd yn edrych yn unol â'r hyn a welwyd yn ystod y cyfnod atal byr – gyda lefelau rywle rhwng lefelau'r wythnos gyntaf (pan gaewyd ysgolion yn llawn yn ystod y gwyliau hanner tymor) a'r ail wythnos. Disgwylir data pellach yr wythnos hon i roi mwy o eglurder o ran lefelau symudedd yn ystod wythnos lawn gyntaf y flwyddyn. Bydd data ymlyniad newydd ar gael i'w hadrodd o fewn y pythefnos nesaf.

- Cyhoeddodd y Grŵp Cyngori Technegol [gyngor](#) ar yr amrywiolyn o bryder ac addysg yng Nghymru, gan nodi, gyda'r amrywiolyn COVID-19 newydd yn datblygu i fod yr un blaenllaw a'r nifer bresennol o achosion a chyfraddau positifedd profion, y byddai mesurau ymyrraeth cyfredol nad ydynt yn fferyllol, gydag ysgolion cynradd neu uwchradd ar agor yn llawn, yn annhebygol o fod yn ddigon i gadw'r R_t o dan 1 ac y byddai'r R_t yn is gydag ysgolion ar gau oherwydd llai o gymysgu cymdeithasol.
- Cyhoeddir papurau SAGE a ystyriwyd gan y Gell Cyngor Technegol [yma](#), gan gynnwys y papur '[Lliniaru i Leihau Trosglwyddiad amrywiolyn newydd feirws SARS-CoV-2](#)' o dri is-grŵp SAGE (y Grŵp Ffliw Pandemig Gwyddonol ar Ymddygiadau, y Grŵp Amgylcheddol a Modelu, a'r Grŵp Trosglwyddiad). Mae'r papur hwn yn tynnu sylw at y canlynol:
 - Pwysigrwydd atgyfnerthu ymlyniad at fesurau lliniaru presennol yng ngoleuni'r amrywiolyn newydd, gan argymhell annog ymlyniad at ymyriadau nad ydynt yn rhai fferyllol drwy gyfuniad o gydnabod ymdrechion y boblogaeth hyd yma, darparu sail resymegol glir ar gyfer camau gweithredu, creu atebion derbyniol lle mae risg yn anodd ei hosgoi, darparu cymorth a dulliau cyfathrebu sy'n briodol yn ddiwylliannol.
 - Mae hyder mawr bod yr amrywiolyn newydd yn gofyn am y camau lliniaru personol, gweithdrefnol, peirianeg a chymdeithasol blaenorol er mwyn lleihau trosglwyddiad, ond mae'n debygol y bydd angen gwneud hynny'n fwy trylwyr o ystyried bod yr amrywiolyn newydd yn debygol o gynrychioli risg trosglwyddo sylweddol uwch.

Cyfradd twf a'r rhif atgynhyrchu

- Mae'n bwysig nodi na all yr amcangyfrifon canlynol adlewyrchu'n llawn eto'r newidiadau diweddaraf mewn trosglwyddiad o'r ddwy i dair wythnos ddiwethaf. Y rheswm dros hyn yw bod oedi rhwng yr haint cychwynnol, symptomau'n datblygu a'r angen am ofal ysbyty ac amser y farwolaeth.
- Y gyfradd twf ddyddiol gyfredol a amcangyfrifir gan SAGE (ar 6 Ionawr) yw rhwng -0.04 a 0.01 (cyfwng hyder o 90%) yng Nghymru, sy'n dangos y gallai heintiau fod yn lleihau/tyfu rhwng -4% a +1% y dydd.
- Rhagwelir y bydd yr amcangyfrif diweddaraf o'r rhif atgynhyrchu (R_t) ar gyfer Cymru gan SAGE (ar 6 Ionawr) rhwng 0.8 ac 1.1 (cyfwng hyder o 90%). Dangosir yr amcangyfrif o R_t fel amrediad heb amcangyfrif canolog.
- Mae lechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn amcangyfrif R_t Cymru gan ddefnyddio data ar nifer yr achosion positif. Dylid bod yn ofalus wrth ddechongli'r amcangyfrifon hyn gan y gall newidiadau mewn patrymau profi dros y gwyliau

effeithio arnynt. Ar 1 Ionawr, amcangyfrifir bod R_t yng Nghymru rhwng 1.06 ac 1.08 (cyfwng hyder o 95%).


- Dylid bod yn ofalus o hyd wrth ddehongli amcangyfrifon R_t a chyfraddau twf ar gyfer y DU oherwydd yr oedi anorfod sydd ynghlwm wrthynt, ac oherwydd bod y ffigurau hyn yn cuddio amrywiad yn nifer yr heintiadau a'r modd y mae'r cyfraddau trosglwyddo yn newid yn rhai rhannau o'r wlad.
- Mae cyfradd twf sy'n is ond sy'n dal yn bositif, neu rif R_t uwch nag 1, yn dangos bod yr epidemig yn tyfu fwyfwy.
- Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli amcangyfrifon a dylid ystyried y cyfyngau hyder.

Amser haneru

- Ar 5 Ionawr, amcangyfrifodd lechyd Cyhoeddus Cymru fod yr amser haneru (yr amser y mae'n ei gymryd i nifer yr achosion haneru) yn 68.0 diwrnod (cyfwng hyder o 95% rhwng 9.3 a -12.8) gan ddefnyddio data rhwng 19/12/2020 a 01/01/2020 (gweler y Ffigur isod).
- Mae'r amser haneru (ac R_t a chyfraddau twf), yn rhoi syniad o gyfradd y newid ac felly dylid ei drin yn ofalus am y rhesymau a amlinellir uchod.

Diweddariad rhyngwladol


- Mae'r map isod yn dangos cyfradd gyfartalog yr achosion a adroddwyd am bob 100,000 o bobl yn yr UE mewn cyfnod o 14 diwrnod yn wythnosau 52-53.
- Nid yw'r DU wedi'i chynnwys yn y map ECDC isod oherwydd Brexit.



- Mae'r sefyllfa gyffredinol yn ddiweddar iawn yn gwella ar draws llawer o Ewrop ond mae rhai gwledydd yn dal i weld cynnydd mewn cyfraddau heintio. Yn fanwl:
- Mae'r gwledydd lle mae nifer yr achosion yn gostwng yn cynnwys: Awstria, Gwlad Belg, Bwlgaria, Croatia, Denmarc, y Ffindir, Ffrainc, yr Almaen, Gwlad Groeg, Hwngari, yr Eidal, yr Iseldiroedd, Gwlad Pwyl, Portiwgal a Rwmania.
- Ymhlith y gwledydd sydd â chyfradd heintio sefydlog yn y wladwriaeth neu lle mae'r heintiau yn cyrraedd brig ac ar fin gostwng mae: Sweden, Sbaen, Lithwania, Estonia, Latfia, Slofenia.
- Mae'r gwledydd sy'n profi cynnydd yn cynnwys: Gweriniaeth Tsiec, Slofacia, Norwy ac Iwerddon.
- Mewn mannau eraill, mae llawer o wledydd yn Ne America yn gweld cynnydd mewn achosion er ei bod yn haf yn hemisffer y de. Mae hyn yn debygol o fod o ganlyniad i gyfnod y Nadolig. Mae De Affrica yn profi cynnydd cyflym, sy'n debygol o fod o ganlyniad i'r amrywiolyn newydd sydd, fel amrywiolyn y DU, yn fwy heintus.
- Mae data ynglŷn â'r darlun ar draws Ewrop, gan gynnwys cafeatau ynghylch oedi o ran data ac amrywiad mewn polisïau profi, ar gael [yma](#).

Canlyniadau astudiaeth heintiau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol

- Mae data arolwg heintiau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer yr wythnos ddiweddaraf (27 Rhagfyr 2020 i 2 Ionawr 2021) yn dangos bod y gyfradd positifedd yng Nghymru wedi gostwng, ar ôl cynyddu'n sydyn a chyrraedd brig ychydig cyn y Nadolig. Mae canlyniadau'r wythnos flaenorol i'w gweld [yma](#) (12 i 18 Rhagfyr 2020) a oedd yn amcangyfrif bod gan tua 1 o bob 60 o bobl COVID-19, o'i gymharu ag amcangyfrif o 1 o bob 70 ar gyfer yr wythnos ddiweddaraf.
- Mae'r data hyn yn ddefnyddiol gan mai dim ond amcangyfrifon o haint ydynt sy'n cwmparu achosion asymptomatig yn ogystal ag achosion symptomatig, ac nid yw ffactorau eraill fel y gallu i brofi neu nifer y bobl sy'n cael prawf yn effeithio arnynt. Mae'r canlyniadau hyn ar gyfer aelwydydd preifat yn unig ac nid ydynt yn cynnwys pobl mewn ysbytai, cartrefi gofal neu leoliadau sefydliadol eraill.
- Mae'r Ffigur isod yn dangos yr amcangyfrifon diweddaraf ar gyfer cyfraddau positifedd (%) ers 22 Tachwedd 2020* ar draws 4 Gwlad y DU.
- Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon pwyntiau unigol ar gyfer y cenhedloedd. Ceir mwy o ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon ar gyfer dyddiau olaf y gyfres, a ddangosir fel llinell doredig ar y siart isod.




Ffynhonnell: Arolwg Heintiau Coronafeirws (COVID-19), SYG, 06/01/21

*Mae'r data ar gyfer yr Alban yn mynd hyd at 31 Rhagfyr 2020 yn lle 02 Ionawr 2021 oherwydd gwyliau banc.

- Ar gyfer wythnos 27 Rhagfyr 2020 i 02 Ionawr 2021, roedd gan gyfartaledd o 1.45% o'r boblogaeth gymunedol COVID-19 (cyfwng credadwy o 95%: 1.11% i 1.85%).
- Mae hyn yn cyfateb i tua 1 person ym mhob 70 (cyfwng credadwy o 95%: 1 o bob 90 i 1 o bob 55), neu 44,100 o bobl yn ystod y cyfnod hwn (cyfwng credadwy o 95%: 33,700 i 56,300).
- Mae'r gyfradd positifedd wedi gostwng yn yr wythnos ddiweddaraf, ar ôl cyrraedd brig ychydig cyn y Nadolig.
- Mae dadansoddiad o amrywiolion newydd ac amrywiolion eraill y coronafeirws yn dangos bod y duedd yng Nghymru wedi'i sbarduno gan yr amrywiolion eraill. Mae achosion sy'n gydnaws â'r amrywiolyn newydd yn gymharol isel. Sylwch fod mwy o oedi ar gyfer data o'r arolwg heintiau nag o ffynonellau eraill fel lechyd Cyhoeddus Cymru.
- Oherwydd yr oedi mewn amser rhwng dal COVID-19 a phrofi'n bositif, mae'n debygol na fydd unrhyw effaith ar gyfraddau sy'n profi'n bositif yn dilyn cyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd yn gwbl amlwg tan ail wythnos mis Ionawr.
- Mae'n bwysig pwysleisio'r ansicrwydd ynghylch y ffigurau hyn. Gan mai cymharol ychydig o brofion positif y mae'r arolwg yn eu casglu yn gyffredinol, gall y canlyniadau fod yn sensitif i newidiadau bach yn nifer y profion cadarnhaol hyn.
- Cyhoeddir canlyniadau llawn [yma](#).

Nifer yr achosion


- Mae'r ffigur isod yn dangos y nifer yr achosion o COVID-19 a gadarnhawyd bob dydd (swm treigl o 7 diwrnod, fesul 100,000 o'r boblogaeth). Gwelwyd gostyngiad yn nifer yr achosion yn dilyn brig yng nghanol mis Rhagfyr. Gwelwyd cynnydd mewn achosion yn ystod wythnos olaf 2021. **Byddwch yn ofalus wrth ddehongli tueddiadau ar gyfer y cyfnod diweddaraf gan y gallai patrymau profi fod wedi newid dros gyfnod y Nadolig.**



Ffynhonnell: Data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 6 Ionawr

Proffil oedran

- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer yr episodau COVID-19 a gadarnhawyd fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl wythnos casglu sampl a grŵp oedran.
- Yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru, ar 6 Ionawr, cynyddodd nifer yr achosion yn y rhan fwyaf o grwpiau oedran yn dilyn gostyngiad yn yr wythnos flaenorol, gyda nifer yr achosion ar eu huchaf ymhlith y rhai 18-44 oed.



Ffynhonnell: Dangosfwrdd Llywodraeth Cymru, data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fel ag yr oeddent ar 3 Ionawr.

Brechu yng Nghymru

- Erbyn yr wythnos a ddaeth i ben ar 3 Ionawr 2021, roedd cyfanswm o 49,428 dos o frechlyn COVID-19 (25 ohonynt yn ail ddos) wedi'u rhoi yng Nghymru.
- Mae'r nifer hwn yn cynnwys 1,024 o bobl a gafodd eu brechu yng Nghymru, ond a oedd yn preswyllo y tu allan i Gymru.
- Bydd nifer wirioneddol y dosau yn uwch oherwydd bod data'n cael eu cofnodi'n barhaus.

Marwolaethau

- Mae'r Ffigur isod yn dangos y swm treigl 7 diwrnod o farwolaethau COVID-19 a gofnodwyd gan lechyd Cyhoeddus Cymru ar 6 Ionawr 2021, sy'n dangos tuedd gynyddol yn ddiweddar.




Ffynhonnell: Dangosfwrdd Llywodraeth Cymru, data gan lechyd Cyhoeddus Cymru fel ag yr oeddent ar 6 Ionawr.

- Mae'n bwysig nodi bod y data yn cynnwys adroddiadau am farwolaeth cleifion mewn ysbytai neu gartrefi gofal yng Nghymru lle mae COVID-19 wedi'i gadarnhau gyda phrawf labordy positif a bod y clinigwr yn amau bod COVID-19 yn ffactor a achosodd farwolaeth. Nid yw'n cynnwys cleifion a allai fod wedi marw o COVID-19 ond na chadarnhawyd hynny drwy brofion labordy, y rhai a fu farw mewn lleoliadau eraill, neu drigolion Cymru a fu farw y tu allan i Gymru. Bydd gwir nifer y marwolaethau yn uwch.
- Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn adrodd ar farwolaethau a amheuir ac a gadarnhawyd sydd o ganlyniad i COVID-19 gan ddefnyddio data sydd ar gael ar

ôl cwblhau'r broses cofrestru marwolaethau ac er ei fod yn destun oedi, mae'n fwy cyflawn.

- Mae'r Ffigur isod yn dangos data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol o nifer y marwolaethau sy'n ymwneud â COVID-19 a gofrestrwyd fesul wythnos yng Nghymru a nifer yr holl farwolaethau achos a gofrestrwyd fesul wythnos rhwng 28 Rhagfyr 2019 ac 1 Ionawr 2021.




Ffynhonnell data: [Y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

- Yng Nghymru, cynyddodd nifer y marwolaethau a oedd yn ymwneud â COVID-19 o 278 (Wythnos 52) i 310 (Wythnos 53) tra bod cyfanswm nifer y marwolaethau yn Wythnos 53 209 yn uwch na'r cyfartaledd pum mlynedd.
- Roedd yr wythnosau blaenorol yn cynnwys gwyliau banc y Flwyddyn Newydd, Gŵyl San Steffan a'r Nadolig a fyddai wedi effeithio ar nifer y marwolaethau a gofrestrwyd. Felly, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r tueddiadau ar gyfer yr wythnosau diwethaf.**

Glynu wrth y mesurau presennol a dealltwriaeth ohonynt

- Cesglir y data canlynol bob pythefnos ac mae'r mwyaf newydd yn dod o'r cyfnod cyn y Nadolig. Adroddir yma er gwybodaeth; bydd data newydd ar gael i'w adrodd o fewn y pythefnos nesaf.


- Mae data diweddaraf [IPSOS MORI](#) ar gyfer y cyfnod 4-7 Rhagfyr ar gyfer Cymru yn dangos gostyngiadau pellach mewn rhai categorïau o'r arolwg diwethaf. Bu gostyngiadau yn nifer y bobl a oedd yn gwneud teithiau hanfodol yn unig ac yn osgoi teithio nad yw'n hanfodol o'i gymharu â phythefnos yn ôl. Dylid nodi mai'r unigolion eu hunain sy'n cofnodi a ydynt wedi glynu wrth y mesurau ai peidio, ac y bydd dealltwriaeth unigolion o'r rheolau a'r amgylchiadau sy'n berthnasol iddynt hwy yn effeithio ar y data.
- Mae'r ffigur isod yn cynrychioli data a gasglwyd ar-lein gan IPSOS MORI fel rhan o arolwg a gynhaliwyd mewn sawl gwlad ar lwyfan Global Advisor. Mae pob un o'r tonnau wedi cynnwys oddeutu 500 o ymatebwyr yng Nghymru. Mae'r sampl yn fras yn cynrychioli'r boblogaeth oedolion 16-74 oed. Mae'r data'n cael eu pwysoli i adlewyrchu proffil oedran a rhyw poblogaeth Cymru rhwng 16 a 74 oed. Mae gan bob sampl ffin cyfeiliornad. Ar gyfer sampl o tua 500, mae hyn yn +/- 4.8 pwynt canran.



- Mae canlyniadau diweddaraf yr [Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ynghylch Iechyd a Llesiant yn ystod y Mesurau Coronafeirws](#) ar gyfer y cyfnod 14-20 Hydref yn dangos bod 42% o bobl yn dweud eu bod yn deall y cyfyngiadau yn eu hardal leol yn 'dda iawn'. Dywedodd 41% arall eu bod yn deall y cyfyngiadau yn 'eithaf da'. Mae'r canlyniadau hefyd yn dangos bod 38% o bobl wedi dweud eu bod yn dilyn y cyfyngiadau coronafeirws yn 'gyfan gwbl' a bod 47% arall wedi dweud eu bod yn cydymffurfio â'r mwyafrif. Dywedodd 31% fod pobl y tu allan i'w cartref/aelwyd estynedig yn dod i mewn i'w tŷ, a dywedodd 19% eu bod wedi mynd i dai pobl eraill.


Symudedd

- Mae'r data symudedd yn dangos gostyngiadau mawr mewn symudiadau, ond yn bennaf ar ôl 24 Rhagfyr. O'i gymharu â'r cyfnod atal byr, nid oedd symudedd wedi lleihau cymaint yn ystod pedwar diwrnod cyntaf y cyfyngiadau lefel 4. Ar 25/26 Rhagfyr roedd symudedd yn arbennig o isel. Mae data preswyl Facebook a Google yn dangos bod lefelau uchel iawn o bobl wedi aros gartref ar y 25/26, ond nid mor uchel ag ym mis Mawrth pan gyflwynwyd y cyfyngiadau symud am y tro cyntaf.
- Yn ystod dyddiau cyntaf lefel rhybudd 4 gwelwyd lefelau uchel o symudedd mewn archfarchnadoedd (o bosibl oherwydd bod mwy o bobl yn siopa bwyd yn y cyfnod cyn y Nadolig), ond lleihad mawr mewn gweithleoedd (o bosibl oherwydd bod pobl yn gorffen ar gyfer y Nadolig a hefyd yn cau nifer o fusnesau o dan lefel rhybudd 4). Nid oedd manwerthu a hamdden wedi gostwng cymaint ag yn ystod ychydig ddyddiau cyntaf y cyfnod atal byr. Gallai hyn fod oherwydd bod siopau'n gallu cynnig gwasanaeth clicio a chasglu.
- Ers dydd Llun 4 Ionawr mae symudedd yn debyg i'r cyfnod atal byr – gyda lefelau rywle rhwng yr wythnos gyntaf (pan oedd yr ysgolion ar gau/hanner tymor) a'r ail wythnos. Bydd data pellach a ddisgwylir yr wythnos hon yn rhoi mwy o eglurder i lefelau symudedd yn ystod yr wythnos lawn gyntaf eleni.



- Mae symudedd [defnyddwyr Facebook](#) yng Nghymru yn dangos bod symudiadau 31% yn is na'r llinell sylfaen ar gyfer yr wythnos hyd at 8 Ionawr. Mae hyn i fyny o 43% yr wythnos flaenorol, sy'n cynnwys y cyfnod dros y Nadolig pan oedd symudedd yn isel iawn. Roedd canran y defnyddwyr a oedd yn aros yn eu hunfan (yn agos at adref) yn 36%, yn is na'r wythnos flaenorol (42%). Y llinell sylfaen yw'r gwerth canolrifol ar gyfer yr un diwrnod o'r wythnos, yn ystod y cyfnod 4 wythnos rhwng 2 Chwefror a 29 Chwefror, 2020.

- Mae [data Apple](#) ar gyfer yr wythnos hyd at 8 Ionawr yn dangos bod ceisiadau am gyfarwyddiadau gyrru yng Nghymru wedi cynyddu o'r wythnos flaenorol i 66% o'r llinell sylfaen (o 53%). Mae'r wythnos flaenorol yn cynnwys y cyfnod dros y Nadolig pan oedd symudedd yn isel iawn. Mae ceisiadau am gyfarwyddiadau cerdded a cheisiadau am gyfarwyddiadau trafnidiaeth gyhoeddus wedi cynyddu o'u cymharu â'r llinell sylfaen o'i gymharu â'r wythnos diwethaf. Y llinell sylfaen yw 13 Ionawr 2020.
- Mae [data symudedd Google](#) hyd at wythnos 5 Ionawr yn dangos gostyngiad bach mewn data preswyl (h.y. pobl yn treulio amser gartref) o'i gymharu â'r wythnos flaenorol, 19% yn uwch na'r llinell sylfaen (i lawr o 20%). Fel gyda'r data symudedd arall, mae'r wythnos flaenorol yn cynnwys y Nadolig pan oedd symudedd yn isel iawn. Mae gweithleoedd yn dangos cynnydd (ar 53% yn is na'r llinell sylfaen, i fyny o 62%). Mae manwerthu a hamdden wedi dangos cynnydd bach ers yr wythnos diwethaf (60% yn is na'r llinell sylfaen, i fyny o 64% yr wythnos flaenorol) tra bod archfarchnadoedd a fferylliaeth wedi dangos cynnydd (22% yn is na'r llinell sylfaen, i fyny o 33%). Mae trafnidiaeth gyhoeddus a pharciau hefyd yn dangos cynnydd o'i gymharu â'r wythnos flaenorol.
- Mae'r ffigur isod yn dangos y newid o ran symudedd yng Nghymru gan ddefnyddio data symudedd Google. Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd yr awdurdodau lleol hynny sydd â data. Y llinell sylfaen yw'r gwerth canolrifol, ar gyfer y diwrnod cyfatebol o'r wythnos, yn ystod y cyfnod 5 wythnos o 3 Ionawr i 6 Chwefror 2020. Nid yw'r data ar gyfer sawl categori ar gael ar gyfer 17 Awst – 10 Medi oherwydd nad yw'r data'n bodloni trothwyon ansawdd.



- Mae data ffôn symudol dienw wedi'u casglu ynghyd gan O2 ar gyfer yr wythnos hyd at 1 Ionawr yn dangos gostyngiad mewn teithiau o'i gymharu â'r wythnos

flaenorol. Gostyngodd y teithiau a oedd yn dechrau yng Nghymru 14 pwynt canran i 42% yn is na'r llinell sylfaen. Y llinell sylfaen ar gyfer data O2 yw'r un diwrnod o'r wythnos yn ystod wythnos gyntaf mis Mawrth.

Ymchwil

- Mae 9757 o gleifion o Gymru wedi'u recriwtio i astudiaethau iechyd y cyhoedd brys COVID-19 ar hyn o bryd, sy'n gynydd o 792 ers yr adroddiad diwethaf.

Crynodeb gwyliadwriaeth ac epidemiolegol wythnosol COVID-19 gan Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ar 6 Ionawr


- Roedd cyfran y galwadau i GIG 111 ac NHS Direct yn ymwneud â symptomau COVID-19 posibl yn parhau'n sefydlog o gymharu â'r wythnos flaenorol.
- Yn gyffredinol, mae ymgynghoriadau meddygon teulu ar gyfer unrhyw Haint Anadlol Acíwt (ARI) wedi gostwng tra bod ymgynghoriadau meddygon teulu ar gyfer amheuaeth o COVID wedi cynyddu o gymharu â'r wythnos flaenorol.
- Mae nifer y galwadau ambiwlans a allai fod yn gysylltiedig â COVID-19 wedi gostwng yn yr wythnos ddiweddaraf.
- Cynyddodd nifer Cymru gyfan o achosion COVID-19 a gadarnhawyd gan labordy yn ystod yr wythnos ddiweddaraf yn dilyn gostyngiad yn wythnos 52. Roedd positifedd y samplau yn uwch na 23% yn wythnos 53.
- Yn ystod wythnos 53, cynyddodd nifer yr achosion yn y rhan fwyaf o grwpiau oedran yn dilyn gostyngiad yn wythnos 52, gyda nifer yr achosion ar eu huchaf yn y rhai rhwng 18 a 44 oed.
- Mae nifer uchel o achosion yn parhau i gael eu hadrodd, yn bennaf mewn cartrefi gofal preswyl.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ysgol yn cael eu haddysgu ar-lein ar hyn o bryd, gyda rhywfaint o ddysgu wyneb yn wyneb ar gyfer plant sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol. Mae gwybodaeth am wyladwriaeth ysgolion ar gael ar [ddangosfwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru](#).
- Cafwyd nifer cynyddol o enghreifftiau o VOC 202012/01 (wedi'u canfod drwy ddefnyddio'r dull procsi lle ceir Methiant ar y Targed Gennyn-S yn y feirws) drwy gydol mis Rhagfyr a dechrau mis Ionawr. Roedd yr achos VOC cyntaf a gadarnhawyd mewn genomeg ym mis Tachwedd ac ers hynny mae'r feirws

wedi'i gadarnhau mewn 16/22 o ardaloedd awdurdodau lleol ar draws pob rhanbarth yng Nghymru.

- Mae marwolaethau o bob achos wedi cynyddu o gymharu â'r cyfartaledd 5 mlynedd. Gwelwyd cynnydd yn nifer y marwolaethau mewn achosion a gadarnhawyd yn yr ysbyty, ond mae nifer cyffredinol y marwolaethau wedi aros yn sefydlog o gymharu â'r wythnosau diwethaf.
- Mewn marwolaethau lle mae gwybodaeth ar gael o wylidwriaeth marwolaethau cyflym lechyd Cyhoeddus Cymru, clefyd cronig y galon, diabetes a chlefyd anadlol cronig yw'r ffactorau risg a gofnodir amlaf (mewn 36%, 28% a 22% o farwolaethau yn y drefn honno).
- Nid yw'r Ffliw a Feirws Syncytial Anadlol (RSV) yn cylchredeg yng Nghymru ar hyn o bryd.
- Mae dangosfwrdd lechyd Cyhoeddus Cymru ar gael [yma](#) ac mae'n cynnwys dadansoddiad yn ôl awdurdodau lleol.

Defnydd o welyau mewn ysbytai

- Mae'r Ffigur isod yn dangos y defnydd o welyau mewn ysbytai oherwydd achosion COVID-19 a gadarnhawyd, yn ystod ton gyntaf ac ail don y pandemig (cyfartaledd treigl 7 diwrnod, fel ag yr oedd ar 8 Ionawr 2021).



- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y cleifion mewn unedau gofal dwys oherwydd achosion o COVID-19 a gadarnhawyd yn ystod ton gyntaf ac ail don y pandemig (cyfartaledd treigl 7 diwrnod, ar 8 Ionawr 2021).




- Mae'r tabl isod yn manylu ar ddefnydd cyffredinol gwelyau unedau gofal dwys ar draws byrddau iechyd yng Nghymru ar 8 Ionawr 2021, gan gynnwys defnydd cyffredinol yr unedau gofal dwys fel canran o nifer y gwelyau y mae'n bosibl eu staffio ar gymhareb 1:1 (yn seiliedig ar fod 152 ar gael ledled Cymru). Mae nifer y cleifion COVID-19 mewn unedau gofal dwys wedi cynyddu ers yr wythnos diwethaf.
- Mae ffigurau meddiannaeth yn seiliedig ar gapasiti unedau gofal dwys a adroddwyd i ni gan fyrddau iechyd lleol. Fodd bynnag, unwaith yr eir y tu hwnt i tua 150 o welyau yn cael eu defnyddio mewn unedau gofal dwys, mae'n golygu na ellir eu staffio yn unol â'r gymhareb nyrso 1:1 sy'n ofynnol ar gyfer Lefel 3, a bydd gofal cleifion yn cael ei effeithio.
- Mae defnydd gwelyau ysbyty ac unedau gofal dwys yn sgil COVID-19 wedi cynyddu dros yr wythnosau diwethaf. Ar 8 Ionawr 2021, nid oedd yn bosibl rhoi gofal 1:1 i bob claf yn yr unedau gofal dwys yn y rhan fwyaf o fyrddau iechyd, gyda'r unedau gofal dwys yn 138.2% o'u capasiti ar gyfer gofal 1:1; gweler y tabl isod.


Health Board	Level 3 ICU occupancy (% of 1:1 ratio beds occupied)	Total L3 ICU Occupancy %	COVID19 Suspected patients	COVID19 Positive patients
ABUHB	126.1%	100.0%	3	18
BCUHB	146.2%	79.2%	1	22
CTMUHB	172.0%	91.5%	0	35
CVUHB	171.4%	100.0%	0	24
HDUHB	104.5%	92.0%	0	12
SBUHB	103.6%	82.9%	0	16
Wales	138.2%	90.5%	4	127

8th Jan 2021


- Mae'r Ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer y bobl sydd wedi cael prawf positif ar gyfer COVID-19 ac sydd mewn unedau gofal dwys mewn ysbytai ar draws y gwahanol fyrddau iechyd yng Nghymru. Data ar 8 Ionawr 2021.




- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a dderbyniwyd i'r ysbyty yr amheuir bod COVID-19 arnynt neu y cadarnhawyd hynny. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny. Data ar 8 Ionawr 2021.



- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a ryddhawyd o'r ysbyty yr amheuir neu y cadarnhawyd eu bod wedi cael COVID-19. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny. Data ar 8 Ionawr 2021.



- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a dderbyniwyd i'r unedau gofal dwys yr amheuir bod COVID-19 arnynt neu y cadarnhawyd hynny. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny. Data ar 8 Ionawr 2021.



Ffon fesur tebygolrwydd Pennaeth y Proffesiwn Asesu Gwybodaeth (PHIA)

- Os yw hynny’n briodol, bydd y Gell Cyngor Technegol yn mynegi tebygolrwydd neu hyder yn y cyngor a ddarperir gan ddefnyddio ffon fesur tebygolrwydd PHIA i sicrhau cysondeb ar draws gwahanol elfennau’r cyngor a roddir.

